County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019, 4.30 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Patel (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Derbyshire, Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

Tua Amser.

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 Datgan Buddiannau**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**3 Cofnodion**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth a 2 Ebrill 2019
fel gwir gofnod.

**4 Craffu Cyn Penderfyniad: Goleuadau Stryd LED ar Rwydwaith Priffyrdd Preswyl** *(Tudalennau 5 - 50)* — 4.35 pm

Eitem i roi cyfle i Aelodau godi unrhyw gwestiynau ar gynigion i gaffael goleuadau stryd LED ar gyfer rhwydwaith priffyrdd preswyl Caerdydd.

**5 Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - 2019/20** *(Tudalennau 51 - 124)* — 5.20 pm

Eitem i drafod cynnwys Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth – Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - 2019/20. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar gynigion y Gyfarwyddiaeth sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cynllun Busnes Drafft 2019/20** *(Tudalennau 125 - 218)* | 6.20 pm |

Eitem i ystyried cynnwys Cynllun Busnes Drafft Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2019/20. Bydd craffu'n digwydd ar y Cynllun Busnes Drafft hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ddatblygiad y ddogfen hon.

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Adroddiad Blynyddol Drafft 2018/19** *(Tudalennau 219 - 274)* | 7.05 pm |

Bydd y Prif Swyddog Craffu yn tywys yr Aelodau drwy Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. Gofynnir i'r aelodau ystyried yr adroddiad, penderfynu a oes angen unrhyw newidiadau a chytuno ar fformat terfynol i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Rhaglen Waith 2018/19 - Adroddiad ar Lafar** | 7.25 pm |
| **9** | **Eitemau Brys (Os oes rhai)** | 7.35 pm |
| **10** | **Y Ffordd Ymlaen** | 7.40 pm |

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd wrth ystyried pob eitem agenda, cytuno ar sylwadau, argraffiadau a phryderon yr Aelodau i'w cyfleu i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd, a nodi eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

**11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Mehefin 2019.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019
Cyswllt: Graham Porter, 02920 873401, g.porter@caerdydd.gov.uk

## GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd